Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn	Ymateb CCAUC i Adolygiad Browne o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yn Lloegr	Gwahoddiad i gyfarfod blynyddol CCAUC ar gyfer y cyhoedd	Datganiadau cyflogadwyedd	Cynllun Cymrodor-iaethau Addysgu Cenedlaethol	Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol
Ehangu mynediad i addysg uwch	Rhoi cymhellion i brifysgolion i recriwtio i bynciau gwyddonol	Y diweddaraf am y Coleg Ffederal	Hysbysebu am gadeirydd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Ymweliadau sefydliadol	Hyfforddiant i staff prifysgol i helpu i gynyddu rhoddion

Rheoli'r nifer o israddedigion amser-llawn

Ar ôl ymgynghori â'r prifysgolion (W10/27HE) ynghylch cais Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylid gosod a glynu wrth derfyn uchaf ar gyfer y nifer o israddedigion amser-llawn, ysgrifenasom at y prifysgolion ar 30 Medi i roi arweiniad iddynt ar reoli niferoedd o fyfyrwyr. Mae'r cylchlythyr yn rhoi gwybodaeth ar sut y bydd cap ar y niferoedd hyn yn cael ei gyfrifo a'i rannu rhwng y sefydliadau. Cafodd gwybodaeth fwy manwl, ar gyfer pob sefydliad unigol, ei dosbarthu ym mis Hydref.

➔ Cylchlythyr W10/27HE

➔ Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad

Ymateb CCAUC i Adolygiad Browne o Gyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yn Lloegr

Yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu ar ymateb Cymru i'r *Browne Review of Higher Education Funding and Student Finance in England*,

gan gymryd i ystyriaeth yr hyn y mae'r Arglwydd Browne wedi'i gynnig ac, yn bwysicach, yr ymateb iddo gan Lywodraeth San Steffan.

O safbwynt CCAUC, byddwn yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yna byddwn yn ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod gennym y gyfundrefn addysg uwch gryfaf bosibl yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar amcanion allweddol *Er Mwyn Ein Dyfodol*, sef cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog.

Er bod yr argymhellion ar gyfer Lloegr, bydd angen i ni sicrhau bod rhoi ar waith unrhyw argymhellion sy'n effeithio ar weithrediad yr ASA (QAA) a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y cyrff hyn yn gweithio ar draws ffiniau, ac y bydd angen trafod eu dyfodol ar lefel y DU.

Gwahoddiad i gyfarfod blynyddol CCAUC ar gyfer y cyhoedd

Bydd cyfarfod cyhoeddus blynyddol CCAUC yn cael ei gynnal yn swyddfeydd CCAUC yn Llanisien, Caerdydd am 10:00 a.m. ar Ddydd Gwener, 29 Hydref 2010. Mae croeso i bawb ddod, gan gynnwys y rheiny sydd â chysylltiad proffesiynol neu academaidd ag addysg uwch, myfyrwyr, graddedigion a rhieni, ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn AU. Mae'r digwyddiad yn ddi-dâl: y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i info@hefcw.ac.uk i gofrestru i sicrhau mynediad i'r adeilad ar y diwrnod.

Byddwn yn defnyddio'r cyfarfod cyhoeddus blynyddol i lansio ein hadroddiad blynyddol diweddaraf. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyflawniadau yn ystod y flwyddyn ariannol 2009-10 ac ar gynnydd CCAUC yn erbyn ei gynllun gweithredol. Ceir ynddo hefyd wybodaeth am niferoedd o fyfyrwyr a chyllido myfyrwyr a chrynodeb o'n cyfrifon blynyddol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Datganiadau cyflogadwyedd

Mae gwefan Unistats yn rhoi gwybodaeth am bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ffeithiau am gyrsiau a data am fodlonrwydd myfyrwyr. Er mwyn sicrhau bod ein harfer yn gyffelyb i arfer yn Lloegr, rydym wedi gofyn i'r sefydliadau addysg uwch gynhyrchu 'datganiadau cyflogadwyedd' a gaiff eu cynnwys yn adran 'Commentary' gwefan Unistats. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr fwy o wybodaeth am wahanol gyrsiau prifysgol megis costau, enillion graddedigion, a bodlonrwydd myfyrwyr.

➔ Cylchlythyr W10/32HE: Datganiadau cyflogadwyedd

➔ Cyswllt i Unistats

Y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon bydd Cymru'n ymuno â'r Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo unigolion ym maes addysg uwch y mae eu cyflawniadau wedi gweddnewid profiad dysgu'r myfyrwyr.

Mae'r gwobrau ar gael i staff mewn sefydliadau addysg uwch a gyllidir gan CCAUC ac mewn sefydliadau AB y mae ganddynt 100 neu ragor o fyfyrwyr cyfwerth ag amser-llawn sy'n dilyn rhaglenni addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol gan CCAUC.

Bydd hyd at 55 gwobr o £10,000 yn cael eu rhoi i gydnabod cyflawniadau rhagorol ymgeiswyr unigol mewn sefydliadau cymwys yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Dyddiadau allweddol:

- 5 Ionawr 2011 — Galw am enwebiadau a rhyddhau ffurflenni cais
- 23 Mawrth 2011 — Enwebiadau'n cau – dyddiad terfynol ar gyfer copïau electronig o enwebiadau
- 30 Mawrth 2011 — Dyddiad terfynol ar gyfer copïau caled o enwebiadau
- 21 Ebrill 2011 — Dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno proffiliau a ffotograffau

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Cynhelir gweithdy ar 24 Tachwedd 2010 yn Llandrindod i gynorthwyo sefydliadau Cymreig sy'n ymateb i'r alwad am enwebiadau. Bydd gwybodaeth bellach ar gael ar wefan yr Academi Addysg Uwch.

➔ Gwefan yr Academi AU

Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol

O 2011 bydd sefydliadau Cymreig yn gallu ychwanegu cwestiynau dewisol i'r arolwg myfyrwyr cenedlaethol ar-lein. Darperir manylion llawn drwy gylchlythyr a gyhoeddir ar ein gwefan yn nes ymlaen ym mis Hydref.

Ehangu mynediad i addysg uwch

Pwrpas ein polisïau ehangu mynediad yw sicrhau tegwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch i alluogi dysgwyr o bob ystod oedran a chefndir, sy'n wynebu'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd mwyaf, i gyflawni eu potensial fel myfyrwyr, dysgwyr gydol oes, dinasyddion a gweithwyr.

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu ein datganiad safbwynt ar ehangu mynediad: *Ymagwedd Strategol CCAUC at Ehangu Mynediad i Addysg Uwch.* Bydd y ddogfen hon yn nodi ein hymrwymiadau i gwrdd â blaenoriaethau'n ymwneud ag ehangu mynediad yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth addysg uwch Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys cyfrannu at wella cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog.

Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cyfrannu'n effeithiol at ehangu mynediad i a thrwy addysg uwch, rydym wedi ymgynghori â'r prif randdeiliaid, a byddwn yn gofyn i amrywiaeth ehangach o bobl sydd â diddordeb asesu effaith y ddogfen bolisi bwysig hon ar gydraddoldeb.

Dylai unigolion neu gyrff sydd â diddordeb mewn cyfrannu at y broses o wneud asesiadau effaith cydraddoldeb gysylltu â ni yn equality@hefcw.ac.uk.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Yn y cyfamser rydym wedi diwygio'r canllawiau i sefydliadau sy'n amlinellu sut y byddem yn disgwyl iddynt ddatblygu eu gweithgareddau ehangu mynediad a'r hyn i ganolbwyntio arno, megis ymrwymiad parhaus i ymadawyr gofal a chymorth i fyfyrwyr anabl.

➔ Cylchlythyr ar Ddyraniadau Ehangu Mynediad i Addysg Uwch 2010/11 a Gwybodaeth Gysylltiedig

Rhoi cymhellion i brifysgolion i recriwtio i bynciau gwyddonol

Yn ystod yr haf, gwahoddwyd cynigion gan sefydliadau i drosi lleoedd presennol mewn prifysgolion yn lleoedd ar gyfer gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) er mwyn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio economaidd, ac yn sgil galwadau gan lawer o gyflogwyr am fwy o raddedigion yn y pynciau hyn. Hysbyswyd y sefydliadau o'u dyraniadau unigol yn gynharach yn y mis.

Y diweddaraf am y Coleg Ffederal

Fel yr adroddwyd ym mis Mehefin, cenhadaeth y Coleg Ffederal yw cynnal, datblygu a goruchwylio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Ni fyddai'n endid daearyddol unigol nac yn gorff dyfarnu graddau ond byddai'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r sefydliadau addysg uwch presennol yng Nghymru. Byddai'n endid cyfreithiol newydd ac annibynnol gyda'i Gyfansoddiad ei hun.

Cafodd y Cyfansoddiad drafft ar gyfer y Coleg ei ystyried gan y cyrff sy'n cynrychioli'r sector, Addysg Uwch Cymru (AUC) a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), a chan CCAUC mewn cyfarfodydd yn y digwyddiad Deialog Strategol a gynhaliwyd ym Mangor ar 2 Medi, lle y cafodd ei gefnogi ar y cyfan. Bydd yn awr yn cael ei ystyried yn ffurfiol gan gyrff llywodraethu'r sefydliadau AU yn ystod eu cyfarfodydd ym mis Hydref a dechrau mis Tachwedd. Yna gall y Coleg gael ei gorffori'n gyfreithiol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Enw'r Coleg

Yr enw sy'n cael ei gynnig ar gyfer y Coleg yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr ystyrir ei fod yn enw disgrifiadol byr a fydd yn ystyrlon i'r myfyrwyr presennol ac i ddarpar fyfyrwyr.

I ddod

Yn ystod yr ychydig o fisoedd nesaf, bydd cynnydd yn cael ei wneud gyda'r trefniadau ar gyfer penodi'r cadeirydd annibynnol a chyfarwyddwyr y Coleg, fel y gall y Coleg ddechrau ei waith ym mis Ebrill 2011.

Rhagor o wybodaeth

➔ Bwletin y Coleg Ffederal Hydref 2010

➔ Bwletin y Coleg Ffederal Mehefin 2010

Hysbysebu am gadeirydd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol arfaethedig (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel y 'Coleg Ffederal') yn gweithio gyda a thrwy brifysgolion yng Nghymru i gynyddu cyfleoedd i fyfyrwyr i astudio eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CCAUC yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r Coleg ac rydym bellach yn chwilio, ar ran y Coleg arfaethedig, am Gadeirydd ar gyfer Bwrdd Llywodraethwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

➔ Rhagor o fanylion a disgrifiad swydd byr

Ymweliadau sefydliadol

Cafodd ein Cyngor a'n tîm rheoli uwch eu croesawu i Brifysgol Morgannwg yng nghanol mis Medi fel rhan o'n cyfres o Ymweliadau Sefydliadol. Mae'r sefydliadau'n cael cyfle i dynnu sylw at ddatblygiadau diweddar – megis gwaith adnewyddu,

adeiladau a labordai newydd, ac ati – yn ystod yr ymweliadau hyn cyn ymgymryd â thrafodaethau â CCAUC am eu cyfeiriad strategol. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym Mhrifysgol Bangor ar Ddydd Gwener 28 Ionawr 2011.

Hyfforddiant I staff prifysgol i helpu i gynyddu rhoddion

Mae'r Cynllun sy'n cynyddu gwerth rhoddion gwirfoddol i addysg uwch yng Nghymru drwy ddarparu arian cyfatebol gan CCAUC bellach yn ei ail flwyddyn.

Gall staff prifysgol fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol i helpu i hybu gweithgareddau codi arian eu sefydliadau a chynyddu incwm o ffynonellau allanol.

Mae CASE Ewrop yn cynnig nifer o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer arweinwyr academaidd, gan gynnwys Is-Gangellorion a staff datblygu yn sefydliadau addysg uwch Cymru, a bydd ysgoloriaethau ar gael i bobl i fynychu cynadleddau, seminarau a digwyddiadau.

Wedi'u harwain gan arbenigwyr yn y maes, bydd y digwyddiadau hyn yn rhoi hyfforddiant a gwybodaeth i staff prifysgol a fydd o fudd i'w sefydliadau.

Ysgoloriaethau CCAUC sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau a chynadleddau CASE Ewrop, 2010-2011

Mae cyfleoedd hyfforddi'n cynnwys:

Fforwm Rhanbarthol yng Nghaerdydd	15 Tachwedd 2010	2 ysgoloriaeth y sefydliad

Arweinir y seminar hanner-diwrnod hwn gan Sion Lutley, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr, Prifysgol Caerfaddon a Julian Smyth, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cynfyfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth.

Fforymau Arbenigo: Ymgyrchoedd, Cymynroddion, Rhoddion Mawr	Sawl dyddiad	2 ysgoloriaeth ar gael

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Newyddlen CCAUC Hydref 2010

Arwain Newid ym Meysydd Codi Arian a Datblygu: Rôl y Llywodraethwr	19 Tachwedd 2010	2 ysgoloriaeth
Cynhadledd Roi Flynyddol	9 -10 Rhagfyr 2010	4 ysgoloriaeth
Seminarau 'Cyflwyniad i'	Sawl dyddiad	4 ysgoloriaeth
Y Sefydliad Gwanwyn ar gyfer Codi Arian Addysgol	28 Mawrth-1 Ebrill 2011	4 ysgoloriaeth
Seminar yr Is-Gangellorion	12 Mai 2011	4 ysgoloriaeth
Datblygu ar gyfer Deoniaid ac Arweinwyr Academaidd	27 Mehefin 2011	8 ysgoloriaeth

I wneud cais am ysgoloriaeth, ewch i www.case.org/matchedfunding a dewiswch y dudalen 'Matched Funding in Wales' i gyrchu'r ffurflen

Gellir cyrchu calendr digwyddiadau CASE Ewrop yn www.case.org drwy ddewis rhanbarth Ewrop yn yr adran 'Conferences and Training', felly ewch i'r dudalen honno i gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau.